

Cyngor Bro Llanllwni  
Adroddiad o gyfarfod mis Ionawr 2021

Cynhaliwyd y Cyfarfod ar Zoom nos Lun 11 Ionawr 2021 am 8yh.  
Roedd y Clerc wedi rhoi poster yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod a dymunwyd Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Braff oedd gweld Dewi Davies yn ailymnuno, ar ôl cyfnod o salwch. Dymunwyd adferiad buan iddo.

#### Y CAE CHWARAE

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae.

Diolchwyd i Eric Davies am ei waith gwirfoddol yn trefnu a pheintio yn y cae chwarae yn dilyn yr archwiliad gan Gyngor Sir Caerfyrddin ym Mawrth 2020. Penderfynwyd derbyn cynnig y Cyngor Sir i archwilio'r safle a'r adnoddau eleni eto. Roedd y Clerc wedi derbyn cytundeb ysgrifenedig a map gan Western Power ynglŷn â'r polion trydan yn y Cae Chwarae. .

#### GWEFAN LLANLLWNI

Roedd yr adroddiad o gyfarfod mis Awst 2020 ar y wefan.  
Penderfynwyd yn unfrydol i wahodd Gohebydd y Wasgi gyfarfod mis Mawrth ar Zoom i drafod manylion ynglŷn â diweddarau'r Wefan.

#### ETHOL CYNGHORWYR

Yr oedd y Clerc wedi derbyn gwybodaeth bod rhaid i bob Cynghorwr fod yn byw o fewn tair milltir i ddalgylch Llanllwni neu yn berchen tŷ neu yn gweithio yn y pentref i fod yn Cynghorwr.

#### HEWL GWARCWM – BEILI BACH

Cyflwr yr hewl yn wael iawn.  
Nid oedd y Clerc wedi derbyn unrhyw wybodaeth pellach ers y Cyfarfod diwethaf.

#### DIFFIBRILYDD

Nid oedd y Clerc wedi archebu'r diffibrilydd hyd yma oherwydd anawsterau gweinyddol.

#### Tŷ HERS:

Roedd y Clerc wedi danfon anfoneb at CFFI Llanllwni am logi'r Tŷ Hers.

#### MATERION ARIANNOL:

Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cynghorwyr.

#### CYNGOR SIR CAERFYRDDIN:

Roedd y Clerc wedi derbyn cadarnhad parthed y praesept.

#### SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU:

Yr oedd y Clerc wedi derbyn llythyr i gadarnhau bod archwiliad cyfrifon 2019 – 2020 wedi ei gwblhau.

PENDERFYNWYD CEFNOGI

Elusen Noah's Ark; CFFI Llanllwni; CFFI Sir Gâr.

Derbyniwyd llythyron o gydnabyddiaeth gan Gyngor Sir Caerfyrddin (Apêl Teganau Nadolig 2020); Gofal a Gwybodaeth Cancr; Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Llanllwni.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Zoom Nos Lun 08 Mawrth 2021 am 8yh.